

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnodï

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

CHARLES, GEOFFREY (1909-2002), ffotograffydd

Enw: Geoffrey Charles
Dyddiad geni: 1909
Dyddiad marw: 2002
Priod: Doris Thomas
Priod: Verlie Blanche Charles (née George)
Plentyn: Susan Charles
Plentyn: Janet Charles
Plentyn: John Charles
Rhiant: Jane Elizabeth Charles (née Read)
Rhiant: John Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ffotograffydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Troughton

Ganwyd Geoff Charles ar 28 Ionawr 1909 ym Mrymbo ger Wrecsam. Bu ei dad John Charles (1870-1941) yn Ysgrifennydd i Gwmni Dŵr Brymbo o 1912 i 1941, ac roedd ei fam Jane Elizabeth (ganwyd Read, 1874-1968) yn un o Nyrsiau'r Frenhines. Fe'i magwyd gyda'i frawd iau Hugh a'i chwaer Margaret yn yr Hen Ficerdy, tŷ yn ymyl y rheilffordd, a bu ganddo ddiddordeb ysol mewn rheilffyrdd ar hyd ei oes. Yn Ysgol Grove Park cafodd ei annog i ymgeisio am Ddiploma mewn Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Llundain, lle graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn 1928. Gweithiodd i gychwyn fel newyddiadurwr i'r *Western Mail* yn delio â chwestau a rasys trac lludw a milgwn. Yn nes ymlaen bu'n gweithio i'r *Mountain Ash and Aberdare Express* yn sgrifennu am gyfarfodydd cyngor ac achosion llys. Cafodd ei ddenu wedyn gan oleuadau'r ddinas a symudodd i Guildford i weithio i'r *Surrey Advertiser*.

Yn Guildford canfuwyd bod y ddarfodedigaeth arno, clefyd a allai fod yn anghueol o hyd. Ar ôl iddo wella mewn sanatoriwm dychwelodd adref a chael gwaith ar y *Wrexham Star*, papur a sefydlwyd yn 1934 gan gwmni Woodall, Minchin & Thomas i fod yn gystadleuaeth i'r *Wrexham Leader*. Busnes ceiniog a dimai oedd y *Wrexham Star* a ddibynnai ar werthwyr cornel stryd. Yn fuan wedi iddo ymuno â'r *Wrexham Star* adroddodd ar Drychineb Glofa Gresffordd. Llwyddodd i gael mynediad i stafell y lampiau a chafodd wybod bod y ffigwr swyddogol o gant o ddynion dan ddaear yn danosodiad. Yn fuan wedyn prynodd Geoff ei gamera cyntaf, VPK Thornton Pickard a ddefnyddiai blatiau 2.5 wrth 3.5 modfedd. Ymhlith y lluniau cyntaf a dynnodd roedd cyfres yn dangos aildanio ffrwneisi chwyth gwaith dur Brymbo.

Yn eironig ddigon daeth diwedd ar y *Wrexham Star* yn sgil ffyniant economaidd wrth i'r gwerthwyr gael swyddi cyson. Ymunodd y papur â'r *Wrexham Advertiser* ym Mawrth 1936. Erbyn hyn roedd Geoff yn ffotograffydd digon atebol i gael ei benodi gan Gyfarwyddwr Woodall, Rowland Thomas, yn rheolwr ar eu hadran ffotograffyddol yng Nghroesoswallt. Yn fuan wedyn symudodd i'r Drennewydd i redeg y *Montgomeryshire Express* a chyfrannu ffotograffau i bapur wythnosol *Y Cymro*. Y stori gyntaf a wnaeth i'r *Cymro* oedd am **Lewis Valentine** ychydig cyn iddo gael ei ddedfrydu am ei ran yn llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth. Gwrthododd **Lewis Valentine** gael tynnu ei lun felly tynnodd Geoff luniau o'i ferch. Cyhoeddwyd y lluniau hynny ar 23 Ionawr 1937. Yn nes ymlaen dechreuodd gydweitho â gohebydd ifanc addawol o'r enw John Roberts Williams wrth ddarlunio straeon ar gyfer *Y Cymro*. Cyflwynwyd y ddau gan gyfaill cyffredin ym maes pêl-droed Pwllheli yn 1938. Ystyriai Geoff mai John Roberts Williams a wnaeth iddo adnabod a gwerthfawrogi ei Gymreictod. John Roberts Williams oedd ei was priodas yn 1939 pan briododd Verlie Blanche George (1907-1981). Cawsant un mab, John, a dwy ferch, Janet a Susan.

Daeth ei waith i'r *Cymro* i ben bron yn llwyr yn ystod blynyddoedd y rhyfel pan fu'n rhaid iddo ganolbwyntio ei ymdrechion ar y *Montgomeryshire Express*. Gwasanaethodd hefyd ar is-bwyllgor Arddangos o Bwyllgor Gweithredol Amaethyddiaeth Rhyfel Sir Drefaldwyn, gan gynorthwyo i hysbysebu a gweithredu dulliau ffermio gwell. Oherwydd ei bwl o'r ddarfodedigaeth nid oedd modd iddo ymuno â'r lluoedd arfog. Roedd llawer o'i waith yn y cyfnod hwn ar ffilm 35mm, wedi'i dynnu ar gamera Leica 111B a brynodd yn Ionawr 1939. Yn anffodus collwyd y rhan fwyaf o'i ffotograffau cynnar. Cafodd rhai eu taflu wrth glirio'r tŷ yng Nghroesoswallt yn 1939 ac eraill eu llosgi mewn tân yn Wrecsam. Ond mae digon wedi goroesi i roi cofnod nodedig o'r ffyrnt cartref yng nghanolbarth Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ailgydiodd o ddifrif yn ei waith i'r *Cymro* ar ôl y rhyfel pan benodwyd John Roberts Williams yn olygydd. Yn fuan iawn roedd eu gwaith yn rhagori ar unrhyw ffoto-newyddiaduraeth arall yng Nghymru. Ei waith mwyaf adnabyddus yw'r ddelwedd o'r bardd gwlad **Carneddog** a'i wraig pan orfodwyd iddynt adael eu fferm ar fynyddoedd y Carneddau yn 1945 yn sgil marwolaeth eu mab. Ni fu i'r un ffotograff gydio yn nychymyg y Cymry fel y gwnaeth hwn. Amrywiol ei bynciau'n fawr, o gneifio defaid i longau, o baffio i wenynyddiaeth ac o geir i gwryglau. Yn ystod y cyfnod hwn cofnododd ei waith lawer mwy na digwyddiadau a phersonoliaethau - fesul darn a fesul llun datgelir ffordd o fyw sydd wedi diflannu bellach - y gweision fferm yn byw yn y Llofft Stabal, y postmon yn dylifro llythyron ar gefn ceffyl neu'r hen chwarelwr yn arddangos y 'car gwyllt'. Dyfodiad y trydan i bentrefi diarffordd, ysbryd milwriaethus newydd yn yr ymgyrch dros yr iaith Gymraeg, y chwyldro mecanyddol mewn amaeth - cofnodir hyn oll yn ei waith. Ymhlith ei ffotograffau mwyaf eiconig y mae'r rhai a dynnwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd wedi'r rhyfel arbrofodd hefyd gyda ffilm sine, a'r uchafbwynt yn hynny o beth oedd ei gywaith gyda John Roberts Williams a **Cynan** -'Yr *Etifeddiaeth*.' Saethwyd y ffilm mewn du a gwyn a chafodd ei dangos am y tro cyntaf yn y Gymraeg a'r Saesneg (dan y teitl '*The Heritage*') yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau yn 1949. Ymhlith ei ffilmiau eraill y mae *Tir Na Nog* a ffilmiwyd yn Iwerddon; *Y Cymro* - ffilm am argraffu; taith ddiwylliannol i Sbaen dan Franco yn 1949 a buddugoliaeth tîm pêl-droed Cymru dros Wlad Belg, hefyd yn 1949.

Mae'r lluniau a dynnodd am achos Tryweryn yn haeddu sylw arbennig. Am gyfnod byr roedd Cymru'n dal ei hanadl. A fyddai'r gymuned yn cael byw, ynteu a fyddai'n boddï dan gronfa newydd i roi dŵr i Lerpwl? Boddï a wnaeth y pentref, ond nid cyn i Geoff dynnu cyfres deimladwy o ddelweddau a gofnododd ffordd o fyw a chymuned a ddiflannodd yr un pryd.

Ymddeolodd Geoff Charles yn 1975 ond daliodd ati i gyfrannu erthyglau a ffotograffau i'r *Cymro* a'r *Farmers Weekly* ar ei liwt ei hun. Yn nes ymlaen rhoddodd ei gasgliad o

dros 120,000 o negatiffau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a chynorthwyo gyda'r dasg enfawr o'u catalogio a'u mynegeo. Bu ei waith yn destun dwy arddangosfa fawr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 1984 a 1995. Roedd gweld syndrom y finegr yn dechrau effeithio ar rai o'i negatiffau cynnar yn sbardun i fynd ati i ddigido'r casgliad cyfan, ac mae'r rhain bellach ar gael trwy **wefan y Llyfrgell**. Yn 1985 derbyniwyd ef yn aelod o Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan dan yr enw 'Sieffre o Brymbo'.

Priododd eilwaith yn 1986, â Doris Thomas (1909-2000) a symudodd i'r Rhyl. Yn ei flynyddoedd olaf roedd ei olwg diffygiol yn ofid mawr iddo. Bu farw ar 7 Mawrth 2002, a chynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Amwythig ar 19 Mawrth.

Awdur

William Troughton

Ffynonellau

Geoff Charles rhannau 1&2 - recordiadau sain LIGC 99371239502419 & 99371239202419 (1982)
Barn, Mawrth 1995
Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru 1939-1979, catalog arddangosfa 1984

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Geoff Charles

Gweithiau

LIGC: Casgliad Ffotograffig Geoff Charles

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66195543
Wikidata: Q5534081

Dyddiad cyhoeddi: 2017-02-20
Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

- PDF
- Argraffu
- Cyfeirnodï

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Troughton, W., (2017). CHARLES, GEOFFREY (1909-2002), ffotograffydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c11-CHAR-GEO-1909>

Chwarae

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION





Welsh for:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government